

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD IONAWR 2022
24 Ionawr 2022, 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Elin Jones, Glyn Griffiths, Dafydd Watts

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Watts ddiddordeb yn eitem 5.1 a'r Cynghorydd Glyn Griffiths ddiddordeb yn eitem 10.7, deiseb ardal draenio.

3. Ymddiheuriadau

Llio Griffiths, Richard Jones

4. Cadarnhau Cofnodion 15 Tachwedd 2021

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Dafydd Watts

5. Materion yn codi o'r Cofnodion -

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech

Mae ADRA wedi nodi bwriad i newid y cynllun fel bod yna fyngalo yn lle un tŷ. Byddant yn danfon copi o'r cynllun diwygiedig atom yn fuan.

Mae'n debyg y bydd ADRA yn cyflwyno eu cais cynllunio ddiwedd Chwefror. Dydy ADRA ddim yn meddwl y bydd y tai yn achosi problem traffig, ond bydd swyddogion Cyngor Gwynedd yn gwneud sylw ar hynny wedi i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno, a gall aelodau'r cyhoedd hefyd gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd o'r cais cynllunio.

Mae'r Clerc wedi diweddarau deisebwyr Garreg Frech ar y bwriad i newid cynllun lleoliad y tai, ac wedi gado danfon copi o'r cynllun diwygiedig pan fydd ar gael.

Mae deisebwyr Garreg Frech wedi holi a fyddai'r cyngor cymuned yn fodlon cefnogi dynodi'r cae sydd ym mherchnogaeth Stad Brondanw,

islaw Garreg Frech, (pan fod adolygiad o'r cynllun datblygu lleol yn digwydd yn dechrau yn yr Hydref), ar gyfer tai. Cytunwyd na fyddai hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth i fwriadau ADRA i godi tai yn Garreg Frech, ac mai amserol fyddai trafod hyn a chynnig barn pan fo'r ymgynghoriad ar y gweill.

5.2 13 Garreg Frech

Cafodd Mabon ap Gwynfor A.S. ateb gan Gyngor Gwynedd. Mae'r adran drethi yn nodi na fedrant gymryd camau i geisio cael gorchymyn arwystl ar yr eiddo am fisoedd lawer, oherwydd pwysau gwaith.

O ran defnyddio'r eiddo tai gwag, nid oes gan Gyngor Gwynedd fwriad i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth yma. Mae'r staff sydd wedi cael hyfforddiant bellach wedi gadael, ac felly does dim capasiti i ddefnyddio'r llwybr yma chwaith.

Mynegwyd siom am ymateb Cyngor Gwynedd, a'r ffaith na fyddai unrhyw gamau gweithredol yn cael eu cymryd ganddynt am amser maith.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mabon ap Gwynfor A.S. yn mynegi siom am ymateb Cyngor Gwynedd ac yn gofyn iddo ddwyn pwysau arnynt i weithredu'n gynt.

5.3 Y Ganolfan

Cytunwyd i adael i Gyngor Gwynedd ddefnyddio'r Ganolfan ar gyfer etholiadau mis Mai, ond bydd angen tacluso'r tu allan a gwneud asesiad risg erbyn hynny.

Mae cyfarwyddiadau wedi eu rhoi i'r beipen sgrap y tu allan i'r Ganolfan gael ei symud, ond hyn heb ei wneud. Felly bydd yn rhaid ffeindio rhywun arall i wneud hynny.

Cytunwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf wariant ar Y Ganolfan gan gynnwys y posibilrwydd o gael unedau cegin newydd gan eu bod yn llawn tyllau pry, ac yn annhebygol o fod gwerth eu hadfer.

5.4 Parcio ar y B4410 o flaen mynedfa Garreg Frech

Mae'r cerbyd yn parhau i barcio mewn lle peryglus. Ysgrifennodd y Clerc at ADRA a Chyngor Gwynedd, a'r ddau gorff yn gwrthod cydnabod cyfrifoldeb, gan awgrymu mai mater i'r Heddlu ydoedd, ac os oedd y broblem yn parhau dylid cysylltu â'r Heddlu drwy ddefnyddio llinell 101.

Penderfynwyd bod y Clerc i ysgrifennu at denant yr eiddo yn mynegi pryder y gall damwain ddigwydd os yw'r cerbyd yn parhau i barcio yno. Os yw'r broblem yn parhau, yna'r unig opsiwn fydd gwneud cwyn i'r Heddlu.

5.5 Polisiâu'r Cyngor Cymuned

Mae Un Llais Cymru wedi dweud y bydd hi'n bosibl cyfieithu un neu ddau o'r polisiâu i'r Gymraeg, ond dydy'r rhan fwyaf ohonynt ond ar gael yn y Saesneg. e.e. Dignity at Work, Data Protection a dim adnoddau i'w cyfieithu.

Gofynnwyd i'r Clerc holi am bris cyfieithu a gweld os oes gan gynghorau cymuned eraill fersiynau sydd wedi eu cyfieithu yn barod.

Mae angen hefyd mabwysiadu polisi bioamrywiaeth ac fe benderfynwyd ei drafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

5.6 Gardd Gymunedol Llanfrothen

Cafwyd manylion pellach gan Y Dref Werdd. Maent wedi cael grant o £500 gan Gynefin a phecyn gardd ffrwyth gan Raised Bed

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Tachwedd 2021 £239.52

TWE **£60.00**

6.2 Cyflog Clerc Rhagfyr 2021 £239.72

TWE **£59.80**

6.3 Anfoneb Michael Kerr 3 Rhagfyr 2021, agor bedd newydd ym mynwent Tan Lan £475.00

6.4 Anfoneb Michael Kerr agor bed i gladdu llwch, mynwent Tan Lan £80.00

6.5 Rhodd cinio Nadolig i'r gymuned Siop a Chaffi Llanfrothen, (Smith & Cunliffe) £250.00

6.6 Anfoneb R.G. & R.A. Jones, 16 Rhagfyr 2021, trwsio hysbysfwrdd Croesor, Jones, £93.20

6.7 Tâl HSBC hyd at 5 Rhagfyr 2021 £8.00

6.8 Anfoneb Scottish Power £53.72

6.9 Derbyn tâl am gladdu llwch ym mynwent Tan Lan, £125.00

6.10 Balans yn y banc 4 Ionawr 2022 £29,895.07

6.11 Cyfrifon Banc HSBC

Mae HSBC bellach yn codi £8.00 y mis am bob cyfrif, ac felly fe benderfynwyd cau cyfrif rhif 21041177 – Cronfa'r Cadeirydd

6.12 Praesept 2022/23

Cytunwyd i adael swm y praesept yr un fath â'r llynedd, sef £9,300.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Dafydd Watts

7. Gohebiaeth

- Llythyr gan Eisteddfod yr Urdd Dinbych yn gofyn am gyfraniad ariannol

Cytunwyd mai polisi'r cyngor cymuned oedd ond cynnig cyfraniad ariannol pan oedd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal yng Ngwynedd.

8. Cynllunio

Dim

9. Rhoddion Ariannol

Cytunwyd i roi rhodd ariannol o £50 i Ysgol y Garreg, £50 i bapur bro'r Wylan a £150 i Ffermwyr Ifanc Meirionnydd.

Rhoddwyd £150 i'r ffermwyr ifanc gan fod siec am £50 ar gyfer 2000/21 a 2021/22 heb fynd trwy'r banc oherwydd iddynt fynd i swyddfa'r ffermwyr ifanc yn Nolgellau, a'r swyddfa honno ddim yn cael ei defnyddio bellach. .

10. Materion Eraill

10.1 Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol Drafft Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru

Cytunwyd y byddai aelodau yn danfon unrhyw sylwadau ymlaen at y Clerc.

10.2 Ynni Twrog a Thai Rhent Llanfrothen

Mynychodd y Cynghorydd Nia Povey gyfarfod a drefnwyd gan Ynni Twrog, efo cynrychiolwyr o Balfours, Cynefin ac ADRA yn bresennol, oedd yn trafod cynhesu tai. Ymdrech yw hyn i geisio sicrhau fod pobl yn medru fforddio cynhesu tai, yn enwedig tai hŷn, fel rhai Stad Brondanw, Trafodwyd os oedd modd cael trydan i rai o dai'r ardal drwy ddulliau trydan Hydro, mewn cynllun tebyg i'r hyn sydd ar waith ym Methesda. Mae yna nifer o gynlluniau Hydro yn ardal Llanfrothen ar hyn o bryd, ond y trydan i gyd yn mynd i'r grid. Fodd bynnag, mae'n haws cynnal cynllun Hydro ym Methesda, gam fod y tai yn agosach at ei gilydd. Mae'r cyfarfod nesaf mewn wythnos.

10.3 Rheoliadau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

Mae'r rhain yn diwygio rhai gofynion ar gyfer y rhai sydd am sefyll yn sefyll fel cynghorwyr cymuned yn etholiadau Mai ymlaen.

10.4 Biniau Halen

Mae Cyngor Gwynedd yn awr wedi cytuno i lenwi a thalu am lenwi biniau halen. Gofynnwyd i aelodau roi gwybod i'r Clerc am unrhyw finiau oedd wedi eu llenwi neu wedi eu torri.

10.5 Goryrru yn Llanfrothen

Trafodwyd goryrru yn Llanfrothen, ac mae angen trefnu cyfarfod efo swyddogion Cyngor Gwynedd

10.6 Mynwent Tan Lan

Mae'n ymddangos fod yr arwydd a osodwyd yn y fynwent yn gofyn i bobl fynd â'u sbwriel efo nhw yn gweithio ar y cyfan, ac ychydig iawn o sbwriel sydd yn awr yn cael ei adael.

10.7 Deiseb Ardal Draenio

Mae yna wahaniaeth ym mhris y drwydded flynyddol y mae'n rhaid i berchnogion tir ardal Llanfrothen a pherchnogion tir ardal Llanfrothen ei dalu i Gyfoeth Naturiol Cymru.

Cytunwyd i ddanfôn llythyr yn cefnogi'r ddeiseb at Gyfoeth Naturiol Cymru yn

10.8 Llwybrau Cyhoeddus

Mae Liz Haynes, (cyn swyddog yn adran hawliau tramwy Cyngor Gwynedd), a'r Cynghorydd Nia Povey am gerdded llwybrau cyhoeddus y gymuned a nodi unrhyw welliannau, e.e. pyst yn pydru. Gobeithir cyflawni hyn erbyn yr haf

10.9 Baner Draig Goch Llanfrothen

Mae'r faner bresennol wedi gwisgo ac fe ofynnwyd i'r Clerc archebu un yr un fath yn ei lle.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Dafydd Watts

10.10 Arfarniad Clerc

Bwriedir cwblhau arfarniad blynyddol y Clerc erbyn Mis Mawrth.

Dyddiad y cyfarfod nesaf - 7 Mawrth 2022